

Edrych o'th gwmpas

Weithiau, byddwn yn barnu rhywun ar unwaith ar sail eu dillad, llais, oedran neu pa dîm pêl-droed maen nhw'n ei gefnogi.

A welaist ti hyn yn digwydd erioed?



A wyddost ti?

Roedd y Rhufeiniaid yn gwneud rhestrau rheolaidd o bawb o fewn yr Ymerodraeth. Roedden nhw'n cyfri pobl i mewn i hyd at chwe grŵp, o'r mwyaf cyfoethog i'r tlawd iawn. Gosodwyd y caethweision islaw'r grwpiau hyn - yn seithfed grŵp ag iddo ychydig iawn o hawliau neu amddiffyniad o gwbl. Cawsant eu gweld fel pethau yn hytrach na phobl.

Dychmyga

Er bod Corinth yn ddinas gyfoethog a blaengar, roedd yna reolau llym am bwy oedd yn bwysig neu beidio. Cafodd rhai pobl eu geni gyda rhyddid a hawliau, ac eraill yn gaethweision.

Os cefaist dy eni'n un o'r caethweision, waeth pa mor fedrus neu glyfar oeddet ti, roedd popeth a wnaethost a phopeth oedd gennyt yn eiddo i'th berchennog. Os oeddet yn gweithio'n dda, efallai y gallet brynu dy

ryddid, a hyd yn oed dod yn gyfoethog. Ond buaset yn cael dy alw'n 'was rhydd' a phawb yn gwybod dy fod wedi bod yn gaethwas. Nid oedd hawl gennyt gymryd rhai swyddi yn y gyfraith neu'r llywodraeth. Roedd yr eglwys yr oedd Paul yn ei threfnu yn un o'r ychydig fannau lle nad oedd y rheolau hyn yn cael eu gweithredu ac roedd pawb yn ceisio gwasanaethu Duw gyda'i gilydd.



Ail lythyr Paul at y Corinthiaid

Perl i'w harchwilio gyda phlant: Pennod 6, adnodaau 3-4a ac 13b

Nid ydym yn gosod unrhyw faen tramgwydd ar lwybr neb, rhag cael bai ar ein gweinidogaeth. Yn hytrach, ym mhob peth yr ydym yn ein cymeradwyo ein hunain fel gweinidogion Duw... Agorwch chwithau eich calonau yn llydan.